



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Y Pwyllgor Darlledu
The Broadcasting Committee**

**Dydd Llun, 21 Ebrill 2008
Monday, 21 April 2008**

Cynnwys
Contents

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions
- 3 Tystiolaeth ar Gyfer Ymchwiliad y Pwyllgor
Evidence for Committee Inquiry

Cofnodir y trafodion hyn yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y pwyllgor. Yn ogystal,
cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.
These proceedings are reported in the language in which they were spoken in the committee.
In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Peter Black	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats
Alun Davies	Llafur (Cadeirydd y Pwyllgor) Labour (Committee Chair)
Paul Davies	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives
Nerys Evans	Plaid Cymru The Party of Wales

Eraill yn bresennol
Others in attendance

Ron Jones	Cadeirydd Gweithredol, Tinopolis Executive Chairman, Tinopolis
Gwion Owain	Prif Weithredwr, TAC Chief Executive, TAC
John McVay	Prif Weithredwr, PACT Chief Executive, PACT
Dafydd Rhys	Cadeirydd, TAC Chair, TAC

Swyddogion Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn bresennol
Assembly Parliamentary Service officials in attendance

Sarah Bartlett	Dirprwy Glerc Deputy Clerk
Aled Eirug	Ymgynghorydd i'r pwyllgor Adviser to the committee
Gwyn Griffiths	Cynghorydd cyfreithiol i'r pwyllgor Legal adviser to the committee
Chris Reading	Clerc Clerk

Dechreuodd y cyfarfod am 1.33 p.m.
The meeting began at 1.33 p.m.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions

[1] **Alun Davies:** Galwaf y cyfarfod i **Alun Davies:** I call the committee to order.
drefn. Dyma ail gyfarfod y Pwyllgor This is the second meeting of the
Darlledu. Broadcasting Committee.

Tystiolaeth ar Gyfer Ymchwiliad y Pwyllgor
Evidence for Committee Inquiry

[2] **Alun Davies:** Yr ydym yn parhau **Alun Davies:** We are continuing with our
gyda'n hymchwiliad i ddarlledu yng inquiry into broadcasting in Wales. I
Nghymru. Croesawaf Ron Jones y prynhawn welcome Ron Jones this afternoon to give
yma i roi tystiolaeth. Diolch am y dystiolaeth evidence. Thank you for the written evidence
ysgrifenedig yr ydych wedi ei rhoi i ni; yr that you have provided; we have all had an

ydyd i gyd wedi cael cyfle i'w darllen. Hoffwn redeg drwy rai o'r materion sydd wedi codi o'ch tystiolaeth ysgrifenedig. Yn gyntaf, a wnewch chi ddweud ychydig o eiriau i gyflwyno eich hun?

[3] **Mr Jones:** Diolch am y gwahoddiad i ddod i siarad gyda chi heddiw. Yr wyf yn gadeirydd ar gwmi o'r enw Tinopolis, sydd wedi ei sefydlu yn Llanelli ers dros 15 mlynedd. Dechreuodd y cwmni drwy wneud rhaglenni yn Gymraeg yn bennaf i S4C, ond erbyn hyn mae wedi ymestyn ei orwelion rywfaint, ac mae'n gyfrifol am gwmiâu, yn Llundain yn bennaf, ym myd chwaraeon a newyddiaduraeth. Bydd rhaglenni fel *Question Time* a nifer o raglenni chwaraeon y BBC yn adnabyddus i chi i gyd. Mae'r cwmni wedi gwneud llawer mwy na hynny yn y blynyddoedd diwethaf. Yr ydyd wedi estyn y cwmni i feysydd newydd, yn enwedig y cyfryngau newydd. Yr wyf yn siŵr y byddwn yn trafod hynny heddiw.

[4] Nid oes gennyf lawer i'w ddweud fel cyflwyniad, ond hoffwn wneud un pwynt. Mae'r pwyllgor wedi gosod targedau uchelgeisiol iawn yn nhermau maes llafur. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn clywed, yn nes ymlaen y prynhawn yma, esiamp l o'r tueddiad gyda phrosiectau fel hyn, lle mae pobl yn pledio'u hachos. Ym myd darlledu, yn fwy na'r rhan fwyaf o feysydd, mae nifer o sefydliadau, cwmniâu, a thechnolegau yn dadlau dros eu meysydd eu hunain. Gwahoddaf y pwyllgor i ymgymryd â rhywbeth hollbwysig, sef ceisio ymyrryd yn y broses a fydd yn dechrau'n fuan iawn—ceir penderfyniad dros y misoedd nesaf ynglŷn â'r cynnwys a gawn fel gwlad dros y genhedlaeth nesaf, efallai. Ni chredaf, ar hyn o bryd, y bydd digon o lais Cymru yn rhan o'r ddadl honno; nid oes digon o'r hyn sy'n dda i Gymru yn y broses sydd wedi cael ei chyhoeddi gan Ofcom, a fydd yn dechrau yn yr hydref.

[5] Yr wyf yn ofnus iawn—o ran y patrwm darlledu, technolegau newydd, anghenion newydd am gynnwys, a diffygion newydd yn y farchnad—y bydd yr opsiynau sydd gan Ofcom i'w cynnig ar ein cyfer ni fel cenedl eto yn Brydeinig eu naws, heb ddigon o ddylanwad ac, efallai, ymyrraeth gennym fel gwlad. Fel ein prif gorff democrataidd,

opportunity to read it. I would like to run through some of the issues that have been raised in your written evidence. First of all, would you please say a few words by way of introduction?

Mr Jones: Thank you for the invitation to come to speak to you today. I am the chairman of a company called Tinopolis, which was established in Llanelli over 15 years ago. The company started out making programmes mainly through the medium of Welsh for S4C, but it has now expanded its horizons somewhat, and is responsible for companies, primarily in London, in the worlds of sports and journalism. Programmes such as *Question Time* and a number of BBC sports programmes will be familiar to you all. The company has done far more than that over recent years. We have expanded the company into new areas, particularly into new media. I am sure that we will discuss that today.

I do not have much to say by way of an introduction, but I would like to make one point. The committee has set ambitious targets with regard to the remit. I am sure that you will hear later this afternoon an example of the tendency with projects such as this, where people plead their cases. In the world of broadcasting, more than most sectors, many organisations, companies, and technologies argue their own corners. I invite the committee to do something that is important, which is to intervene in the process that will start very soon—the content that we receive as a country over the next generation, perhaps, will be decided over the coming months. I do not believe, at present, that Wales has an adequate voice in that debate; there is not enough that is good for Wales in the process that has been published by Ofcom, which will start in the autumn.

I am fearful—with regard to the broadcasting pattern, new technologies, new requirements for content, and new deficiencies in the market—that the options that Ofcom has to offer for us as a nation will be British in focus, without adequate influence and, perhaps, intervention from us as a country. As our primary democratic institution, this is

dyma'r lle i godi'r dadleuon hyn. Dylem fynd i Ofcom, a Llundain, yn y pen draw, gyda rhestr o bethau sydd eu hangen, yn hytrach nag ymateb i'r hyn a gynigir i ni fel rhan o batrwm sydd, ar y cyfan, yn Brydeinig yn hytrach na rhywbeth sydd wedi ei gynllunio ar gyfer Cymru.

[6] **Alun Davies:** Diolch am hynny. Yr ydym yn gwerthfawrogi eich barn. Hoffwn ddechrau drwy drafod sut mae Tinopolis wedi tyfu. A oes modd i chi agor y drafodaeth drwy sôn wrthym am strategaeth Tinopolis ar gyfer tyfu fel cwmni; hynny yw, sut y bu ichi ddatblygu o fod yn gwmni a oedd yn cyflenwi'r farchnad Gymraeg ei hiaith i fod yn gwmni mawr Prydeinig yn y sector?

[7] **Mr Jones:** Credaf ein bod wedi gwneud hynny drwy fod yn onest gyda'n hunain. Mae llawer o siarad am lwyddiant y sector cynhyrchu yng Nghymru. Yr wyf braidd yn sinigaidd am hyn. Os edrychwn ar ein patrwm diwydiannol yng Nghymru, ar yr ochr cynhyrchu teledu yn bennaf, yr hyn yr ydym yn ei wneud—weithiau yn llwyddiannus ac ambell waith ddim mor llwyddiannus—yw cynhyrchu rhaglenni ar gyfer Cymru, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn y Gymraeg; ychydig iawn sydd yn Saesneg. Rhywsut, yr ydym wedi llwyddo i ddisgrifio hynny fel llwyddiant ysgubol diwydiannol yn y sector. Daethom i'r casgliad, rhyw saith neu wyth mlynedd yn ôl, bod llwyddiant yn y maes yn golygu llwyddo yng Nghymru ond bod hefyd angen llwyddo y tu allan i Gymru.

1.40 p.m.

[8] Bu inni sylweddoli mai'r unig ffordd yr oeddem yn debygol o wneud hynny o fewn amserlen hanner call oedd drwy ddefnyddio'r pŵer ariannol, creadigol a rheoli a adeiladwyd gennym ar gefn gweithio yng Nghymru, a phrynu cwmnïau y tu allan i Gymru a oedd yn gallu ychwanegu at yr hyn a oedd gennym ar yr ochr greadigol, a hefyd o ran maint ac elw. Er ein bod yn ystyried ein hunain yn gwmni Cymreig a Chymraeg, mae'n glir nad ydym, fel diwydiant yng Nghymru, wedi llwyddo i ymestyn y tu hwnt i Gymru, a rhaid dod o hyd i ffordd arall o wneud hynny. Yn y pen draw, dyna'r rhesymeg y tu ôl i'r gwaith corfforaethol—yn

the place to raise this debate. We should go to Ofcom and, ultimately, London, with a list of what is needed, rather than respond to what is offered to us as part of a pattern that, on the whole, is British rather than designed for Wales.

Alun Davies: Thank you for that. We appreciate your opinion. I would like to start by discussing the way in which Tinopolis has grown. Could you open the discussion by talking about the growth strategy of Tinopolis; that is, how you developed from being a company that supplied the Welsh-language market to being a major British player in the sector?

Mr Jones: I believe that we have done that by being honest with ourselves. There has been a lot of talk of the success of the production sector in Wales. I am slightly cynical about this. If we look at the pattern of our industry in Wales, mainly on the television production side, what we do—sometimes successfully, and other times not so successfully—is produce programmes for Wales, most of which are in Welsh; very few are in English. Somehow, we have succeeded in describing that as a runaway success for the industry in this sector. We came to the conclusion, seven or eight years ago, that success in this field would mean succeeding in Wales but that we also needed to succeed outside Wales.

We realised that the only way that we were likely to do that within a reasonable timeframe was by using the financial, creative and managerial power, which we had developed on the back of working in Wales, to buy companies outside Wales that could add value to what we had on the creative side as well as in relation to our size and profits. Although we still see ourselves as a Welsh and Welsh-language company, it is clear that, as an industry in Wales, we have not succeeded in reaching out beyond Wales, and so we have to find another way of doing that. At the end of the day, that was the rationale behind the corporate work—rather than the

hytrach na'r gwaith creadigol—a wnaed gennym i dyfu i fod y cwmni yr ydym heddiw. O ran y diwydiant yr ydym yn rhan ohono, credaf o hyd ein bod yn gwmni bach, ac efallai yn rhy fach i lwyddo yn yr hirdymor. Mae'r diwydiant yn prysur droi'n un byd-eang yn llawn chwaraewyr mawr. Dyna un o'r pethau strategol y mae'n rhaid i ni, fel cwmni, ddelio ag ef dros y blynyddoedd nesaf.

[9] **Alun Davies:** Yn eich cyflwyniad y prynhawn yma, bu ichi sôn eich bod yn pryderu am ddyfodol darlledu yng Nghymru oherwydd y broses a fydd yn mynd rhagddo dros y misoedd nesaf. Pam ydych yn pryderu? Mae Ofcom wedi sefydlu proses agored iawn, fe fydd cyfraniad o Gymru, ac mae pobl sy'n penderfynu i'w cael yn Ofcom sy'n gyfarwydd iawn â'r sefyllfa o ran darlledu a chynhyrchu yng Nghymru. Felly, pam ydych yn pryderu?

[10] **Mr Jones:** Credaf fod hanes yn eu herbyn. O edrych ar y newidiadau a fu ym myd darlledu dros y chwarter canrif diwethaf, pryd yn y broses honno cafodd diogelu buddiannau Cymru ei drafod yn rhan o'r ddadl? O edrych ar yr hyn sydd i ddigwydd o hyn allan, gwelwn fod Ofcom wedi dweud, i bob pwrpas, fod S4C yn ddiogel a bod y system ariannu yn ei lle ar gyfer y blynyddoedd nesaf, ond dyna esiampl o feddylfryd sefydliadau—maent yn meddwl yn nhermau'r sefydliad yn hytrach na'r gwasanaeth.

[11] A yw'n wirioneddol bosibl i ni ystyried y gwasanaethau a fydd eu hangen ar y genhedlaeth nesaf os ydym yn dechrau drwy ddweud, 'Mae S4C yn gwneud yn dda, mae setliad ariannol gan y BBC, fel ag y mae, ar gyfer y saith blynedd nesaf, ac mae'r arian sydd ar gael ar gyfer y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus newydd yn fach'? Mae'r arian hwnnw wedi ei ddisgrifio gan Ofcom fel yr arian a fydd ar ôl o'r newid o analog i ddigidol. Mae'r holl fframwaith yn dangos diffyg radicaliaeth o ran yr hyn y mae'r corff yn debygol o edrych arno.

[12] Nid wyf yn arbennig o feirniadol o Ofcom na'i swyddogion, ac yr wyf yn cytuno ein bod yn lwcus bod swyddogion ar lefel uchel iawn yn Ofcom ar hyn o bryd sy'n

creative work—which we undertook in order to grow to be the company that we are today. Given the industry that we are a part of, I still think that we are a small company, perhaps too small to succeed in the long term in an industry that is changing so quickly, and is becoming a global industry of big players. That is one of the strategic issues that we, as a company, will have to tackle over the next few years.

Alun Davies: In your presentation this afternoon, you mentioned that you were concerned about the future of broadcasting in Wales, given the process that will take place over the next few months. Why are you concerned? Ofcom has established a very open process, there will be a contribution from Wales, and there are decision makers in Ofcom who are very familiar with the broadcasting and production situation in Wales. So, why are you concerned?

Mr Jones: I believe that history goes against them. Looking at the changes that have taken place in the world of broadcasting over the past quarter of a century, when during that whole process was protecting Wales's interests raised as part of the debate? Looking at the changes to happen from here on in, we see that Ofcom has said, to all intents and purposes, that S4C is safe and that the funding mechanism is in place for the next few years, but that is an example of the mindset of institutions—they think in terms of the institution rather than the service.

Is it genuinely possible for us to look at the services that will be needed by the next generation if we are to start by saying, 'S4C is doing well, the BBC, as it stands, has a financial settlement for the next seven years, and the money that is available for the new public service broadcaster is a small amount'? That money has been described by Ofcom as the money that will be left over after the switch from analogue to digital. The whole framework shows a lack of radicalism about what the organisation is likely to look at.

I am not especially critical of Ofcom or its officials, and I agree that we are fortunate that there are currently very high ranking officials at Ofcom who know a bit about

gwybod rhywfaint am Gymru. Fodd bynnag, nid eu rôl nhw yw dweud beth fydd ei angen ar Gymru yn y dyfodol; ein rôl ni yw honno, ac nid wyf yn credu y byddem, fel cenedl, yn cyrraedd yr un casgliadau â'r rheiny sy'n debygol o gael eu cyrraedd os gadawn y peth yn nwylo Ofcom. Nid oes dim yn yr hyn y mae Ofcom yn ei ddweud ar hyn o bryd sy'n peri i mi feddwl ei fod yn edrych ar y sbectwm o wasanaethau y bydd eu hangen ar Gymru yn y dyfodol ac y gallwn heddiw fod yn siŵr na fydd y sector preifat yn ei ariannu yfory. Gwyddom y bydd diffyg y farchnad yn rhan annatod o bopeth sy'n cael ei ddisgrifio fel 'cynnwys'—o ran y papurau newydd, y teledu, y radio neu'r cyfryngau newydd—i Gymru ar gyfer y dyfodol.

[13] **Nerys Evans:** Soniasoch am lais Cymru. A ydych yn credu y dylai darlledu, neu ran ohono, gael ei ddatganoli i'r Cynulliad? Hefyd, o ran rôl Ofcom, buom yn sôn am y personél, ond a oes digon o lais gan Gymru yn strwythur Ofcom fel ag y mae?

[14] **Mr Jones:** Mae'r ddau gwestiwn bron â bod yn mynd â ni i'r un cyfeiriad. Ni allaf weld sut, ar lefel resymegol na deallusol, y gall y cyfrifoldeb dros ddarlledu aros yn Llundain yn y pen draw heb iddo gael ei drosglwyddo i Gymru. Credaf y bydd yr egwyddorion sydd y tu ôl i ddatganoli yn ein gyrru i'r cyfeiriad hwnnw rywbyrd yn y dyfodol.

[15] Wrth inni gael yr holl drafodaethau hyn, a'r sefydliadau Prydeinig yn gefndir iddynt, mae'r un peth bron â bod yn ymladd yn erbyn y llall. Nid yw ein Haelodau Seneddol yn rhy awyddus ar hyn o bryd i ryddhau hwn fel maes llafur i'r Cynulliad, ond brwydro yn erbyn y don y maent. Gyda phopeth arall sy'n digwydd, fel y broses datganoli, ni allaf gredu na ddaw llawer mwy o gyfrifoldeb i'r Cynulliad yn y pen draw na'r hyn sydd ganddo ar hyn o bryd.

[16] A fydd hynny'n anghyffyrddus? Wrth gwrs. Bydd yn anghyffyrddus i'r Senedd, i'r BBC a hyd yn oed i S4C, ond, yn y pen draw, beth yw diben gwasanaeth cyhoeddus ym myd darlledu? Mae i ateb gofynion cynulleidfaoedd arbennig. Yr ydym erbyn hyn yn gynulleidfa arbennig yng

Wales. However, it is not their role to tell us what Wales will need for the future; that is our role, and I do not think that we, as a nation, would come to the same conclusions as those that are likely to be reached if we leave the issue in the hands of Ofcom. Nothing that Ofcom has been saying has made me think that it is looking at the spectrum of services that Wales will need in the future or that we can be certain today that that spectrum will not be funded by the private sector tomorrow. We know that the market deficit will be an integral part of everything that is described as 'content'—whether in newspapers, on the television, on the radio or new media—for Wales in the future.

Nerys Evans: You mentioned Wales's voice. Do you believe that broadcasting, or parts of it, should be devolved to the Assembly? In addition, on Ofcom's role, we mentioned its personnel, but does Wales have enough of a voice in Ofcom's structure as it currently stands?

Mr Jones: Those two questions take us in almost the same direction. I cannot see how, on a logical or intellectual level, the responsibility for broadcasting can remain with London at the end of the day without being transferred to Wales. I believe that the principles behind devolution will drive us in that direction at some point in the future.

While we are having all these discussions, with the British institutions as a backdrop, it is almost as though the two things are fighting against each other. Our Members of Parliament are not overly enthusiastic about relinquishing responsibility for this to the Assembly, but they are going against the tide. With everything else that is happening, such as the devolution process, I cannot believe that the Assembly will not eventually get a lot more power than it already has.

Will that be uncomfortable? Of course it will be. It will be uncomfortable for Parliament, for the BBC and even for S4C, but, ultimately, what is the point of public service broadcasting? It is about meeting the needs of specific audiences. We are now a specific audience in Wales—we are a distinct nation.

Nghymru—yr ydym yn genedl arbennig. A minnau'n un sydd wedi elwa o gynhyrchu rhaglenni i S4C, ni allaf gredu bod unrhyw un yn edrych tua'r dyfodol heb sylwi y bydd pethau'n newid, yn enwedig o ystyried sefyllfa y blynyddoedd diwethaf, pan gafodd gwasanaethau yn y Gymraeg eu hariannu'n fwy hael na gwasanaethau yn y Saesneg. Bydd y broses hon yn newid, ac nid oes dwywaith am hynny.

[17] **Paul Davies:** Byddaf yn canolbwyntio ar adroddiad Ofcom. Beth yw'ch ymateb i'r adroddiad hwnnw, ac yn enwedig i'r pedwar model darlledu gwasanaeth cyhoeddus y mae'n eu cyflwyno?

[18] **Mr Jones:** Credaf fod yr opsiynau y mae'n eu cynnig yn fwy tebygol o weithio ar lefel Brydeinig gan nad ydynt yn delio â'r brif broblem sydd gennym—yn yr Alban ac yng Nghymru—o sut i ddefnyddio'r arian prin y mae'n dweud sydd ar gael ar gyfer y gwasanaethau newydd hyn mewn ffordd a fyddai'n helpu Cymru. Pa ganran o'r arian hwnnw ddaw i Gymru, a beth fydd effaith y £6 miliwn, y £10 miliwn neu ba uchafswm bynnag ar dirwedd y gwasanaethau newydd yng Nghymru? Y realiti yw nad yw'n ddigon. Dim ond os ydych chi a ni yn cael ein dwylo ar y prif arian sydd ar gael o ran gwasanaethau cyhoeddus y bydd yn bosibl canfod ateb sy'n siwtio Cymru.

[19] **Paul Davies:** Felly, nid ydych yn credu y bydd yr un o'r modelau'n diwallu anghenion Cymru yn y dyfodol.

[20] **Mr Jones:** Nac ydwyf.

[21] **Paul Davies:** A oes model yr hoffech chi ei gyflwyno a fyddai'n siwtio Cymru?

[22] **Mr Jones:** Yr her yw hyn: yn hytrach nag edrych ar y system ariannu bresennol y mae Ofcom am wneud rhywfaint o newidiadau iddi, dylem allu weld y dyfodol yn nhermau darlledu a defnydd o'r we, a bod yn sicr ein bod yn iawn o ran sut y bydd pethau'n edrych ymhen 10 i 15 mlynedd. Mae'r dechnoleg yn ein gyrru at yr ateb, fel y mae ein defnydd o'n pobl. Dylai fod yn bosibl inni edrych yn awr ar yr holl wasanaethau y bydd ein pobl am eu defnyddio yn ystod y cyfnod hwnnw a gofyn

As someone who has profited from producing programmes for S4C, I cannot believe that anyone is looking to the future without realising that things are going to change, especially given that Welsh-medium services have been funded more generously than English-medium services over the past few years. This process will change, and there is no two ways about it.

Paul Davies: I will focus on the Ofcom report. What is your response to that report, and in particular to the four models of public service broadcasting that Ofcom presents in its report?

Mr Jones: I think that the options that it proposes are more likely to work on a British level, as they do not deal with the main problem that we have—in Scotland and in Wales—of how to use the scarce resources that it says are available for these new services in a way that would help Wales. What proportion of the funding will come to Wales, and what will be the effect of the £6 million, £10 million, or whatever the maximum is on the landscape of new services in Wales? The reality is that it is not enough. We will only find a solution that suits us in Wales if you and we get our hands on the bulk of the funding available for public services.

Paul Davies: So, you do not think that any of these models will meet Wales's needs in the future.

Mr Jones: No.

Paul Davies: Is there a model that you would like to suggest that would suit Wales?

Mr Jones: This is the challenge: rather than looking at the current funding system to which Ofcom wishes to make some adjustments, we ought to be able to see the future of broadcasting and web use, and be certain that we are on the right track about how things will look in 10 to 15 years' time. The technology is driving us towards the solution, as is how we deploy our people. It should now be possible for us to look through all the services that our people will want to use during that period and ask a number of

nifer o gwestiynau. Faint o'r rhain sydd ar gael ar hyn o bryd? Beth yw'r bylchau na chaiff eu hariannu gan y sector preifat? Pa mor bwysig yw'r rhai sydd ar ôl i ni fel cenedl? A ydym yn fodlon eu hariannu er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau ar ein cyfer cystal ag sydd ei angen?

1.50 p.m.

[23] Mae gennym bwl mawr o arian sector cyhoeddus sy'n dod drwy'r BBC ac S4C, ac ati, ac mae'r Cynulliad yn buddsoddi arian mewn pethau fel addysg a hyfforddi ar y we, a dylai fod yn bosibl i ni greu patrwm yn ddeallusol sy'n dangos y ffordd dros bum neu saith mlynedd, neu beth bynnag, fel y gallwn newid ein patrwm ariannu, patrwm y sefydliad, ein patrwm rheoli, a phatrwm ein cysylltiad â'r sector democrataidd, sef Senedd Llundain neu'r Cynulliad yng Nghaerdydd a pharatoi ar gyfer yr hyn fydd ei angen. Mae gennyf farn am yr hyn ddylai fod yn llawer o'r cynnwys hwnnw, ond yr hyn sy'n bwysig ar hyn o bryd yw nad oes neb yn cymryd y cyfrifoldeb dros ddiffinio'r cynnwys hwnnw, nac yn edrych ar y materion o ran sut i'w ariannu, a pha un a ydym yn fodlon ei ariannu.

[24] **Paul Davies:** Felly, a ddylid cynnal adolygiad eang, ac, os felly, pwy ddylai fod yn gyfrifol am hynny?

[25] **Mr Jones:** Dyna pam yr wyf o'r farn fod y pwyllgor hwn mewn sefyllfa mor bwerus. Os yw pobl yn dewis cynnal adolygiad o'r cosmos, anodd iawn fydd canfod atebion dealladwy a derbyniol, ond yr wyf yn gwahodd y pwyllgor i ganolbwyntio ar y prif beth, sef y cynnwys, gan ei fod yn rhywbeth a allai fod yn wasanaeth arbennig o bwysig gyda goblygiadau hirdymor pwysig i'r Cynulliad, yn ogystal ag i ni fel Cymry.

[26] **Alun Davies:** Diolch yn fawr am hynny. Yr wythnos diwethaf, pan oedd Ian Hargreaves o Ofcom gerbron y pwyllgor, yr oedd yn dadlau yn gryf mai unwaith y mae'r newid i ddigidol yn digwydd, ni fydd modd gorfodi ITV i greu cynnwys o Gymru neu o'r rhanbarthau ac eithrio'r newyddion, a byddwch yn ymwybodol o'r hyn y mae Ofcom wedi'i gynniig i ITV fel strwythur heb gynnwys newyddion ar gyfer y dyfodol. A

questions. How many of these are currently available? What are the gaps that will not be funded by the private sector? How important to us as a nation are the ones remaining? Are we willing to fund them to ensure that the services for us are as good as we need them to be?

We have a big pool of public sector money that comes through the BBC and S4C, and so on, and the Assembly invests funding in such things as education and training on the web, and it should be possible for us to create intelligently a pattern for the way forward over the next five or seven years, or whatever, so that we can change our funding pattern, our organisational pattern, our management pattern, and our pattern of links with the democratic sector, namely the Parliament in London or the Assembly in Cardiff and prepare for what will be required. I have an opinion on what should be included in much of that content, but what is important at the moment is that no-one is taking the responsibility for defining that content is, or looking at the issues of how to fund it, or even whether we are willing to fund it.

Paul Davies: Therefore, should a wide-ranging review be undertaken, and, if so, who should be responsible for that?

Mr Jones: That is why I think this committee is in such a powerful position. If people choose to review the cosmos, it would be difficult to find coherent and acceptable solutions, but I invite this committee to focus on the main issue, namely the content, as something that could be a vital service with important long-term implications for the Assembly, as well as to us, as the people of Wales.

Alun Davies: Thank you very much for that. Last week, when Ian Hargreaves from Ofcom was before the committee, he argued strongly that, once the digital switchover has occurred, it will not be possible for Ofcom to compel ITV to create content from Wales or from the regions with the exception of news coverage, and you will be aware of what Ofcom has propose to ITV for non-news content structure for the future. Do you agree with

ydych yn cytuno gyda dadansoddiad Ofcom? Ofcom's analysis?

[27] **Mr Jones:** Yr wyf yn cytuno 100 y cant. Ni allaf weld sut y gallwn orfodi cwmni fel ITV yn ei gyflwr ariannol presennol i ddarparu gwasanaethau o'r fath. Os edrychwn ar ITV yn gyffredinol, gwelwn ei fod yn gwmni sy'n dirywio. Nid yw hynny'n ymwneud â rheoli call na rheoli gwael; mae'r cwmni yn araf yn mynd yn gwmni llai o ran arian a phŵer. Yr ydym yn sicr o golli llais annibynnol ITV Cymru mewn sefyllfa o'r fath, ac ni allaf weld unrhyw ffordd o achub gwasanaethau rhanbarthol oni bai bod rhywun arall yn fodlon eu hariannu, a dychwelwn wedyn at y sgwrs o ran pa wasanaethau sydd eu hangen.

Mr Jones: I agree 100 per cent. I cannot see how we can compel a company such as ITV, given its current financial position, to provide such services. If we look at ITV in general, we see that it is a company in decline. That has nothing to do with sensible management or poor management; the company is slowly getting smaller in relation to wealth and power. We would certainly lose the independent voice of ITV Wales in such a situation, and I cannot see any way to save regional services unless someone else were willing to fund them, and we are then back to the issue of what services are needed.

[28] Mae colli llais annibynnol ITV Cymru yn benodol mewn meysydd fel newyddion a materion cyfoes yn broblem. Mae'n broblem ar hyn o bryd mai gwasanaeth newyddion BBC Cymru yn unig sydd gennym ar wasanaeth y BBC a hefyd ar S4C. Mae'r diffyg lleisiau a safbwyntiau amrywiol yn broblem. Nid oes gennym ddarpariaeth leol, ac yr wyf yn siŵr eich bod wedi trafod hynny o'r blaen. Mae'r rhain oll yn faterion pellgyrhaeddol o ran cadw gwybodaeth sy'n wirioneddol ddemocrataidd, o ran ei bod yn dod gan nifer o leisiau, a rhaid i ni edrych ar hynny.

The particular loss of ITV Wales's independent voice in such areas as news casting and current affairs is a problem, and it is currently a problem that we have only BBC Wales news services on the BBC service and also S4C. The lack of diversity in voices and perspectives is a problem. We do not have local provision, and I am sure that you have discussed that before. These are all issues with far-reaching consequences in terms of retaining information that is genuinely democratic, in that it is provided by a range of voices, and so that is something that we should address.

[29] **Alun Davies:** Sut, felly, y byddech yn dadlau y gallem gryfhau darlledu Saesneg yng Nghymru? Ar hyn o bryd mae S4C yn derbyn £110 neu £120 miliwn y flwyddyn a dim ond £30 miliwn sydd ar ôl i'w wario ar ddarlledu Saesneg yng Nghymru ar gyfer yr 80 y cant o Gymry nad ydynt yn siarad Cymraeg. Sut fydddech chi'n gwella'r sefyllfa ar gyfer darlledu cyfrwng Saesneg?

Alun Davies: So, how do you suggest we strengthen English-language broadcasting in Wales? At the moment S4C receives £110 million or £120 million a year and there is only £30 million left to be spent on English broadcasting in Wales for the 80 per cent of the Welsh population who do not speak Welsh. How would you improve that situation for English-language broadcasting?

[30] **Mr Jones:** Y man cychwyn yw nid sôn am sut i newid y sefyllfa darlledu Saesneg o gymharu â S4C, ond edrych ar yr anghenion. Os edrychwn ar beth, bellach, sy'n denu pobl i ddefnyddio'r we, perthnasedd sydd yn gyrru'r peth. Yn nhermau safon, y realiti yw na fyddwn byth yn gallu ariannu rhai o'r rhaglenni adloniant, comedi, drama a chwaraeon rhyngwladol a fydd yn perswadio ein pobl ni i wyllo ein sianel lleol—beth bynnag yw'r sianel hwnnw, boed yn BBC Cymru, ITV Cymru

Mr Jones: The starting point is not talking about how to change the English-language situation compared with S4C, but to look at need. If we look at what attracts people to using the internet, relevancy is what drives it. In terms of standards, the reality is that we will never be able to fund some of the entertainment, comedy, drama and international sporting programmes that would persuade people to turn over to our local channel—whatever that channel is, whether BBC Wales, ITV Wales or S4C. However,

neu'n S4C. Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau hynny sydd eu hangen arnom yn y ddwy iaith yn bosibl i'w diffinio'n gryno—a chyfeiriais atynt yn fy nodyn—sef newyddion, materion cyfoes, digwyddiadau a rhai pethau celfyddydol. Dylem edrych ar yr arian sydd gennym fel cenedl ac ystyried pa elfen dylai cael ei ariannu gan y pwr cyhoeddus. Efallai y byddai hwnnw'n torri yn ôl ar beth o ddarpariaeth S4C, ond yn y pendraw ni allwn ddod at ddadleuon o'r fath gan ddweud, 'Mae'r sefydliadau'n ddiogel; ni fyddwn yn eu newid.' Mae'n rhaid i ni edrych ar y gwasanaeth yn gyntaf a bod yn ddigon onest i ddweud, 'Dyna faint o arian sydd gennym a dyna'r gwasanaeth sy'n angenrheidiol. Hwnnw sy'n gael blaenoriaeth ac y mae'n rhaid i'r gweddill wneud y gorau ohono.'

[31] **Alun Davies:** Mae'n ddrwg gennyf godi Ofcom eto, ond mae'n swnio i mi fel eich bod yn mynd yn ôl at y model y mae Ofcom wedi ei gynnig, sef y PSP. Mae Ofcom yn rhagweld corff cyhoeddus yn defnyddio'r arian cyhoeddus i ychwanegu at y math o raglenni buasai darlledwyr yn eu darlledu beth bynnag. Darllenais eich nodyn yn fanwl ar y pwynt hwn ac nid yw'r hyn yr ydych wedi ei ddweud a'r hyn yr ydych wedi ei ysgrifennu'n eistedd yn gyfforddus gyda'r hyn yr ydych wedi ei ddweud am ITV a dyfodol darlledu Saesneg.

[32] **Mr Jones:** Nid y sefydliad yw'r broblem o ran ITV Cymru, ond arian. Nid yw'n bosibl o dan y strwythur presennol i atal ITV Cymru rhag mynd yn llai a llai pwysig. Nid wyf yn dadlau fod hwnnw'n beth da, ond nid yw'r arian yn ei system ar hyn o bryd i wneud unrhyw beth arall. Pe byddai arian ychwanegol ar gael i helpu ITV Cymru, byddai gennym broblem arall, sef nid yw am wneud gwaith rhanbarthol. Mae gan hwnnw lai i wneud â'r gwir gost a mwy i wneud â'r ffaith y byddai unrhyw *opt-out* o'r math o sianel y bydd ITV o fewn pum mlynedd yn niweidiol oherwydd byddai'n colli slotiau a fyddai'n caniatáu iddo godi mwy o arian wrth hysbysebu'n genedlaethol na'r arian y byddai'n derbyn gennym am wasanaeth newyddion, materion cyfoes neu raglenni eraill o ddiddordeb.

[33] **Nerys Evans:** Yn eich nodyn, yr

the services that we need in both languages can be defined concisely—and I referred to them in my note—namely news, current affairs, events and some arts programmes. We should look at the money that we have as a nation and consider what aspect should be funded by the public purse. Perhaps that would cut back on some of S4C's provision, but ultimately we cannot approach such debates by saying, 'The organisations are safe and we will not change them.' We must first look at the service and be honest enough to say, 'This is how much money we have and that is the essential service. That will get priority and the others will just have to make the best of things.'

Alun Davies: I am sorry to raise Ofcom again, but it sounds to me as though you are going back to the model that Ofcom suggested, namely the PSP. Ofcom foresees a public body using public money to supplement the type of programmes that broadcasters would broadcast in any case. I read your note in detail on this point and what you have just said and what you have written down do not sit comfortably with what you say about ITV and the future of English-language broadcasting.

Mr Jones: Money, not the organisation, is the problem in terms of ITV Wales. It is not possible under the current structure to prevent ITV Wales becoming increasingly less important. I am not arguing that that is a good thing, but the money is not in its system at the moment to do anything else. If additional money were available to help ITV Wales, we would have another problem, namely that it does not want to produce regional programmes. That has less to do with the real cost and more to do with the fact that any opt-out from the type of channel that ITV will become in five years' time would be damaging, because it would lose slots that would allow it to raise more money through national advertising than the money it would get from us for news services, current affairs or other programmes of interest.

Nerys Evans: In your note, you mention

ydych yn sôn am sefydliadau sy'n darparu darlledu ac yn dweud nad yw rhai yn gymwys mwyach. A allwch ehangu ar hwnnw?

organisations that provide broadcasting and state that some are no longer competent. Could you expand on that?

2.00 p.m.

[34] **Mr Jones:** Yr wyf yn sôn am y BBC, S4C, Ofcom ac ITV. Y realiti yw ein bod wedi etifeddu'r sefydliadau hyn o amser a thirwedd wahanol. Mae'n annheg, bron, i feirniadu'r sefydliadau hyn am eu diffyg gallu i fod yr hyn nad oeddent i fod. Fel cwmni, yr ydym yn cael trafferth gyda'r BBC yn ddiweddar oherwydd y rhaniad newydd rhwng y BBC ac Ymddiriedolaeth y BBC. Yr hyn sydd yma yw'r sefydliadau yn edrych am ffyrdd i ddatblygu ac i drawsnewid eu hunain er mwyn delio â'r sefyllfa bresennol, ac yn methu i bob pwrpas. Prif ddiddordeb sefydliad o unrhyw fath yw diogelu'r sefydliad, sy'n rhywbeth sy'n tyfu dros amser. Nid yw'r dyfodol yn nhermau darlledu, y wasg a'r gwasanaethau ar y we wedi'i gynllunio ar gyfer y sefydliadau presennol, felly dyna pam yr wyf yn feirniadol o hwn. Nid wyf yn eu beio, yr wyf yn feirniadol oherwydd bod yn rhaid i ni ddarganfod ffordd arall o gynllunio sefydliadau sy'n fwy perthnasol ar gyfer yr hyn yr ydym ei angen.

Mr Jones: I am talking about the BBC, S4C, Ofcom and ITV. The reality is that we have inherited these organisations from a different time and landscape. It is unfair, almost, to criticise these organisations for not being able to be something that they were not supposed to be. As a company, we have had problems with the BBC recently because of the new split between the BBC and the BBC Trust. What we have here is the organisations looking for ways of developing and transforming themselves to deal with the current situation, and failing to do so to all intents and purposes. The main interest of any type of organisation is to safeguard the organisations, which is something that develops over time. The future in terms of broadcasting, the media and online services has not been designed for the current organisations, so that is why I am critical of this. I am not blaming them, but I am critical because we have to find a new way forward to design organisations that are more relevant to what we need.

[35] **Nerys Evans:** A oes gennych unrhyw argymhellion ar sut i ddechrau mynd i'r afael â'r mater hwn?

Nerys Evans: Do you have any recommendations on how we could start tackling this issue?

[36] **Mr Jones:** Credaf mai'r peth cyntaf i'w wneud yw dechrau gyda'r cynnwys. Rhaid diffinio'r cynnwys, ac wedyn byddwn yn gweld pwy sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn cynhyrchu a dosbarthu rhywfaint o'r cynnwys. Mi fydd yn bosibl gyda rhai o'r sefydliadau i negodi sefyllfa lle gallant wneud mwy neu lai, neu'n well, yn ôl y gofynion. Ar hyn o bryd, nid oes cysylltiad democrataidd rhyngoch chi yn y sefydliad hwn a'r bobl sy'n cynhyrchu cynnwys ar ran y genedl. Credaf fod hynny'n ein gwahodd, ar ryw adeg, i gael rhyw fath o gorff a fyddai, efallai, heb ei ariannu'n uniongyrchol, fel y dywedodd y Cadeirydd, ond sy'n gysylltiad rhwng y bobl, y cynnwys a'r cyrff sydd gennym, ac a fydd efallai yn y dyfodol yn ariannu cyrff annibynnol sy'n fodlon cyfrannu rhyw elfen o wasanaeth hefyd.

Mr Jones: I think that the first thing to do is to start with the content. We have to define the content, and then we will see who we currently have available to produce and distribute some of that content. It will be possible with some of the organisations to negotiate a situation whereby they can do more or less, or better, according to need. At the moment, there is no democratic link between you in this organisation and those who are producing content on behalf of the nation. I think that that invites us, at some point, to have some sort of body that would, perhaps, not be funded directly, as the Chair said, but which will be a link between the people, the content and the existing bodies, and will perhaps in the future fund independent bodies that are willing to contribute some aspect of service as well.

[37] **Nerys Evans:** Beth am rôl Ofcom, neu a fydd hynny'n dilyn y sefydliadau eraill?

Nerys Evans: What about the role of Ofcom, or will that follow the other organisations?

[38] **Mr Jones:** Y peth pwysig am Ofcom yw ein bod yn gwneud yn siŵr fod yr argymhellion a fydd yn dod allan yn yr hydref yn cynnwys argymhellion sydd o dan ddylanwad y pwyllgor hwn.

Mr Jones: The important thing about Ofcom is that we ensure that the recommendations that come out in the autumn include recommendations that are influenced by this committee.

[39] **Paul Davies:** Hoffwn ddychwelyd at y sylwadau a wnaethoch yn gynharach ynglŷn ag ITV. Dywedasoch nad ariannu'n unig oedd y broblem ond yr ewyllys i wneud y rhaglenni hyn. A wyf yn iawn?

Paul Davies: I would like to return to the comments that you made earlier about ITV. You said that funding was not the only problem, but the will to produce these programmes. Am I right?

[40] **Mr Jones:** Ydych. Nid wyf yn bod yn feirniadol o ITV yn lleol, ond problem fawr Michael Grade yw ei fod yn gwybod y bydd y cwmni a fydd ganddo ymhen tair neu bedair blynedd yn llai na'r cwmni sydd ganddo ar hyn o bryd. Felly, mae pob £1 y gall ei hennill mewn arian hysbysebu yn allweddol. Yn y slot rhwng 6.30 p.m. a 7 p.m., mae'n bosibl gwneud llawer mwy o arian drwy ddangos rhaglenni operâu sebon, adloniant neu gwis na dangos newyddion am Gymru, neu unrhyw ranbarth arall. Dyna natur ddiwydiannol y cwmni—mae'n gwmni sydd o dan bwysau yn y farchnad ac, a bod yn deg, mae'n brwydro yn erbyn pwerau sydd dipyn yn rhy gryf iddo allu dod yn ôl a dweud, '*By the way, we will still make regional news*'. Yr wyf yn ofni bod Hargreaves yn iawn.

Mr Jones: Yes. I am not being critical of ITV locally, but Michael Grade's big problem is that he knows that the company that he will have in three or four years' time will be smaller than the company that he has at the moment. Therefore, every £1 that it can get in advertising revenue will be crucial. They know that, in the slot between 6.30 p.m. and 7 p.m., it is possible to make much more money by showing soap operas, entertainment or quizzes, than it would by showing the news for Wales, or any other region. That is the industry nature of that company—it is a company that is under great pressure in the market and, to be fair, it is fighting against powers that are much too strong for it to be able to come back and say, '*By the way we will still make regional news*'. I fear that Hargreaves is right.

[41] **Paul Davies:** Sylwaf hefyd o'r papur eich bod yn credu bod darpariaeth well ar gyfer siaradwyr Cymraeg na siaradwyr Saesneg o Gymru. Pam ydych yn meddwl hynny? A fedrwch ehangu ychydig ar hynny?

Paul Davies: I also notice from the paper as well that you believe that there is better provision for Welsh speakers than for English speakers. Why do you believe that? Can you expand a little on that?

[42] **Mr Jones:** Mae'n ddiddorol gwrando ar y BBC yn sôn am ei gyfraniad i Gymru. Nid wyf am wneud yn fach o'r cyfraniad y mae'n ei wneud, ond y mae'n aml yn canolbwyntio ar *Doctor Who* a *Torchwood*, yn hytrach na gwasanaethau lleol. Mewn realiti, cyfraniad diwydiannol yw ei gyfraniad yn y maes hwnnw, ac nid yw'n gyfraniad o ran y cynnwys. Byddwn yn dadlau mai'r BBC yw'r unig ddarparwr o ddifrif sydd gennym o ran gwasanaethau Saesneg yn awr, ac mai un llais sydd gennym.

Mr Jones: It is interesting to listen to the BBC talking about its contribution to Wales, and I would not want to play down contribution that it has made, but it frequently focuses on *Doctor Who* and *Torchwood*, rather than on regional services. In reality, the contribution that it makes in that field is an industry contribution, and it is not a contribution in content terms. I would argue that the BBC is now the only serious provider of English-language services that we have, and that we have only one voice.

[43] Yn ogystal, heblaw am y newyddion, ac ni chredaf fod y newyddion mor gryf ag o'r blaen, pa wasanaethau yr ydym yn eu cael? Rygbi ac ambell beth arall. A yw hynny'n ddigon i gynnal teimlad ac ysbryd Cymreictod? Yr wyf yn amau hynny. Furthermore, apart from the news, and I do not believe that the news is as strong as it once was, what services do we get? Rugby and a few other things. Is that sufficient to maintain a sense and spirit of Welshness? I doubt that.

[44] A minnau'n Gymro Cymraeg, credaf fod cynnal Cymreictod yn Saesneg yr un mor bwysig i ddyfodol yr iaith â chynnal gwasanaethau yn y Gymraeg. Nid oes pwrpas i'r Gymraeg yn y dyfodol os nad yw pobl Cymru yn gyffredinol yn meddwl fod bod yn Gymry yn wahanol, ac felly yn gwerthfawrogi gwasanaethau Cymreig. Beth yw pwrpas Cynulliad os, yn y pen draw, nad oes cefnogaeth i'r syniad o Gymreictod fel rhywbeth gwirioneddol ddwyieithog? As a Welsh-speaker, I believe that maintaining a sense of Welshness through the medium of English is as important to the future of the language as maintaining services through the medium of Welsh. There is no point to the Welsh language in future if the people of Wales in general do not feel that being Welsh is different, and therefore appreciate Welsh services. What is the point of the Assembly if, at the end of the day, there is no support for this idea of Welshness as something truly bilingual?

[45] **Peter Black:** I am interested in coming back to this issue of accountability. I was not clear what structures you felt would be most appropriate in Wales to achieve a level of accountability in terms of the general broadcasting media here.

[46] **Mr Jones:** Accountability generally means pound notes. It generally means being accountable to those people who hold the purse strings, as well as the more general democratic issues that we have talked about. Ultimately, and this may well be driven by moves in Scotland, which I suspect is a bit ahead of us in terms of looking for new structures, I think that when the money transfers—and it will—then we will have to find new structures inside Wales that serve that purpose.

[47] Strangely, we have in the BBC Trust a model that might work for Wales. The BBC Trust struggles because it deals with the BBC as it is. However, an accountability chain that went from this body to something approximating the BBC Trust, which was then charged with providing the range of services that we might come up with as a list, and doing it in such a way that it ensured a plurality of voices, no democratic deficit, and that the various institutions and producers and potential producers that we have are treated fairly, might actually give us, in total, a package that works. However, we will not achieve this ultimately unless we can find a way of bringing this body's democratic role into the equation—that is key.

[128] Mae PACT wedi gwneud darn o waith pwysig a chyfeiriwn ato yn ein tystiolaeth ysgrifenedig. Mae TAC yn ategu nifer o'r pryderon a godir yn y papur hwnnw. Mae gorgyffwrdd o ran ein dyheadau ni a rhai PACT. Mae TAC yn cynrychioli cynhyrchwyr yng Nghymru. Yn hanesyddol, cychwynwyd TAC pan sefydlwyd S4C, fel llais ar gyfer y sector annibynnol yng nghydestun S4C. Mae ein cylch gwaith wedi tyfu. Yr ydym hefyd yn cynrychioli ein haelodau mewn trafodaethau gyda'r BBC ac ITV, ond mae hefyd gennym rôl ehangach i feithrin y sector, yn sicr o ran ei berthynas gyda darlledwyr rhwydwaith ac yn y blaen.

[129] **Mr Rhys:** Soniodd Ron Jones am dirwedd y 1980au a'r 1990au a sut mae hwnnw wedi newid. Mae'n rhaid i TAC newid hefyd. Mae teitl y corff yn hen ffasiwn erbyn heddiw. Mae TAC yn sefyll am Teledwyr Annibynnol Cymru, ond beth yw teledwyr erbyn hyn? Mae ein haelodau'n creu cynnwys, nid dim ond rhaglenni teledu. Felly, yr ydym yn y broses o newid yn ogystal.

[131] **Paul Davies:** Hoffwn ganolbwyntio ar waith Ofcom i ddechrau. Nid ydych fel sefydliad yn ffafrio unrhyw un o'r modelau yn yr ymgynghoriad, ond a ydych yn credu bod y pedwar model yn cyflwyno risgiau penodol i gynhyrchwyr annibynnol?

[132] **Mr Owain:** Yn sicr, mae risg ynghlwm wrth bob model, ac efallai'r risg fwyaf yw gwneud dim. Dyna'r risg fwyaf gyda'r model cyntaf. Ategfaf yn gryf yr hyn a

represent at present and how you collaborate with each other?

Mr Owain: There is no current formal structure for working with PACT. We represent over 30 independent producers in Wales. Those companies mostly work for broadcasters in Wales, including the BBC, ITV Wales and, primarily, S4C. I endorse what John McVay said on the relationship between broadcasters and independent companies, but also on Wales's position in terms of commissioning for a British network.

PACT has undertaken a very important piece of work and we refer to it in our written evidence. TAC endorses many concerns raised in that paper. There is an overlap in terms of our aspirations and those of PACT. There is a strong link there. TAC represents producers in Wales. Historically, TAC was established at the same time as S4C, as a voice for the independent sector in the context of S4C. Our remit has grown. We represent our members in negotiations with the BBC and ITV, but we also have a broader role in nurturing the sector, particularly in terms of its relationship with network broadcasters and so on.

[130] **Mr Rhys:** Ron Jones mentioned the landscape of the 1980s and 1990s and how that has changed. TAC also needs to change. The body's title is now old-fashioned. TAC stands for *Teledwyr Annibynnol Cymru*, but what are '*teledwyr*' today? Our members create content, not only television programmes. Therefore, we are in the process of change as well.

Paul Davies: I will concentrate on Ofcom's work to begin with. As an organisation, you do not favour any of the models in the consultation, but do you believe that the four models represent certain risks for independent producers?

Mr Owain: Certainly, a risk is attached to every model, and perhaps the biggest risk is to do nothing. That is the biggest risk in the first model. I endorse strongly what Ron said

ddywedodd Ron yn gynharach. Y peth pwysig, yn sicr i ni ac i'r cwmnïau yr ydym yn eu cynrychioli, yw Cymreigio'r modelau hynny, a'u gwneud yn berthnasol i'r diwydiant, yn enwedig yn y sector annibynnol yng Nghymru—a bod yn blwyfol am funud—ac, yn ehangach, i gynnwys elfennau gwleidyddol a democrataidd. Mae elfen economaidd gref i hyn hefyd ym mha fodel bynnag fydd yn berthnasol i Gymru yn y dyfodol. Yn sicr, mae gan y pwyllgor hwn, neu beth bynnag fydd yn ei ddilyn, rôl eithriadol o bwysig i sicrhau bod ein buddiannau yn cael eu hadlewyrchu mewn unrhyw fodel posibl yn y dyfodol.

[133] **Paul Davies:** A oes model arbennig yr hoffech chi ei gyflwyno?

[134] **Mr Owain:** Na, nid wyf yn meddwl ei fod o fewn ein maes llafur fel cymdeithas fasnach i argymhell unrhyw fodel posibl yn y dyfodol. Mae rhai egwyddorion sylfaenol yr ydym yn credu'n gryf iawn ynddynt, a byddem am gael plwraliaeth o gyrff neu o leisiau ar gyfer cynnwys darlledu sector cyhoeddus yn y dyfodol yng Nghymru. Mae'n bwysig bod hwnnw'n cael ei yrru gan y syniad o gystadleuaeth greadigol, economaidd a masnachol o ran sut ydym yn cyflenwi ein hanghenion PSB yng Nghymru. Mae model 4 yn ymddangos yn gyffrous, ond ni wn ai dyna'r ffordd orau ymlaen ar gyfer diwallu'r anghenion hyn yn y dyfodol. Rhaid i ni edrych ar hynny'n agos ac yn ofalus dros y blynyddoedd nesaf.

[135] **Paul Davies:** Yn dilyn eich sylwadau yn gynharach, a hoffech weld y cyfrifoldeb a'r rheolaeth yn cael eu datganoli i Gymru?

[136] **Mr Owain:** Credaf fod hynny'n anochel. Os ydym am greu dyfodol hirdymor i ddarlledu, i wasanaethau darlledu cyhoeddus, a darlledu mwy masnachol yng Nghymru, credaf fod yn rhaid i hynny ddigwydd, ond nid oes gennym y llwybr na'r amserlen ar gyfer hynny. Bydd angen ystyriaeth ehangach, a bydd datblygiad datganoli yn gyffredinol yn llywio hynny. Nid oes polisi penodol gennym ynglŷn â sut hoffem weld hyn yn digwydd, ond credaf mai dyna fydd yn digwydd.

[137] **Paul Davies:** A fyddai hynny'n cael

earlier. The important thing, certainly for us and for the companies that we represent, is to make these models to Wales more and to make them more relevant to the industry particularly in the independent sector in Wales—if I may be parochial for a moment—and, furthermore, to include political and democratic elements. There is a strong economic element to this as well, regardless of which model is relevant to Wales in the future. Certainly, this committee, or whatever follows it, has an extremely important role to play in ensuring that our interests are reflected in any possible model for the future.

Paul Davies: Is there a specific model that you would like to put forward?

Mr Owain: No, I do not think that it is within our remit as a commercial company to prescribe any possible model for the future. There are some fundamental principles that we believe in strongly, and we would want a plurality of bodies or voices to decide on public service broadcasting content in Wales for the future. It is important that that is driven by the idea of commercial, economic and creative competition as regards the way in which we supply the public service broadcasting needs of Wales. Model 4 seems to be exciting, but I am not sure whether that is the best way forward on fulfilling these needs for the future. We will have to consider that with great care and detail over the next few years.

Paul Davies: Given your earlier comments, would you like to see the responsibility and management being devolved to Wales?

Mr Owain: I believe that that is inevitable. If we want to create a long-term future for broadcasting, public service broadcasting and for more commercial broadcasting in Wales, I believe that that has to happen, but we do not have the route or the timetable for that. That is a matter for wider consideration, and the development of devolution in general will drive that. We do not have a specific policy on how we would like that to happen, but I believe that that is what will happen.

Paul Davies: Would that have a positive

effaith bositif ar y sector annibynnol?

[138] **Mr Rhys:** Nid wyf yn siŵr a fyddai hynny'n cael effaith negyddol ar y sector. Credaf y byddai'n croesawu'r cyfle i ddod i drafod gyda chorff fel hwn yn amlach, er mwyn esbonio'i bryderon a'i obeithion. Byddai hynny'n dod â phethau'n agosach at y gynulleidfa, neu at bwy bynnag sy'n defnyddio'r cynnwys, a byddai hynny'n beth da. Byddai'n golygu bod corff fel y Cynulliad a'r sector yn medru rhannu'r un weledigaeth, ac yn medru dysgu oddi wrth ei gilydd. Ni welaf ddim nad yw'n bositif yn hynny.

[139] **Mr Owain:** Mae coleg darlledu yn y Deyrnas Gyfunol yn ei chyfanrwydd ar hyn o bryd yn golygu bod rhesymau ymarferol pam na fedr hyn ddigwydd yn gyflym. Yn sicr, cwestiwn amlwg i ni fyddai sut y gallwn warchod y buddsoddiad yn y tymor byr a phe bai darlledu yn cael ei ddatganoli, felly mae ystyriaethau manwl i ni.

3.00 p.m.

[140] Yr ydym ni, a'r cyfranwyr eraill heddiw, yn credu bod datganoli darlledu yn anochel. Mae'n anomali llwyr ar hyn o bryd nad yw darlledu wedi ei ddatganoli. Fodd bynnag, mae grymoedd gwleidyddol ac economaidd mwy yn effeithio ar ein haelodau ni yn uniongyrchol, a byddant yn dylanwadu ar hynny.

[141] **Peter Black:** I notice from your paper that you consider that the current requirement for ITV news and non-news hours should be retained. Do you think that ITV has the financial ability to continue with its non-news obligations, and, if not, how do you envisage that being paid for?

[142] **Mr Owain:** The simple answer to that is that, in the short to medium term, it probably does not have the financial resources. ITV as a company is in a difficult position, financially. That is driven by something that is beyond just that PSB obligation that Ofcom would enforce on it. However, currently, according to our estimation, it managed to satisfy that PSB requirement at a relatively low financial cost. We estimate that it spends around £1.5 million on procuring content from the independent sector. That goes a long way towards satisfying that PSB requirement. It is currently four hours a week, but is set to decrease to three hours a week, I believe, in 2009. I think that ITV should be pressed hard to continue satisfying the PSB requirement in Wales.

[143] Let us not forget exactly what ITV has had over the many years of its existence, particularly considering the public asset that it held in the analogue world. I believe that it was Lew Grade who said that holding an ITV franchise was a licence to print money. There was a simple reason for that: it owned the monopoly on the sale of television advertising. I would ask this committee, in its response to Ofcom, to urge Ofcom to be slightly more hawkish as to

effect on the independent sector?

Mr Rhys: I am not sure whether it would have a negative effect on the sector. I think that it would welcome the opportunity to come before a body such as this more often, to outline its concerns and its aspirations. That would bring things closer to the audience, or whoever uses our content, and that would be a good thing. It would mean that a body such as the Assembly and the sector could share the same vision, and could learn from each other. I can see nothing but positives in that.

Mr Owain: The broadcasting college in the United Kingdom as a whole at the moment means that there are practical reasons why this cannot happen quickly. Certainly, the obvious question for us would be how to protect the investment in the short term and if broadcasting were devolved, so there are detailed considerations for us.

We, and the other contributors today, believe that devolving broadcasting is inevitable. It is a total anomaly at present as that broadcasting is not devolved. However, larger political and economic forces have a direct impact on our members, and will also have an influence in that regard.

how ITV satisfies its news and non-news requirement, but specifically in the context of our sector than on news requirement hours. I would call for a dialogue between Ofcom, and possibly the Assembly, to try to ensure that that requirement is kept and is not reduced any further. There are economic and cultural reasons as to why we should be doing that.

[144] **Mr Rhys:** Part of the problem as well is that ITV centrally does not wish to see the regional hours continue, because—and this is not an attack on ITV regionally; you have heard others saying the same this afternoon—they are a nuisance to the schedule, and ITV considers it as a non-profit-making, or low-profit-making, part of the business. So, we have to fight ITV centrally to keep the political will to make programming in the regions.

[145] **Mr Owain:** I would add to that that I do not think that the PSB requirement on ITV should be relaxed in any way, until there is a suitable alternative to ensure plurality of PSB supply in Wales. I can understand ITV's situation centrally, and Ron Jones expanded on that earlier. It is in a tight situation, financially, and there are pressures bearing down on it. However, there are larger considerations here that should inform our view.

[146] **Alun Davies:** May I press you on that? On the one hand, you say that Ofcom should be more hawkish, but, on the other, you accept that the current situation is not financially sustainable. Those two positions are entirely different. You cannot expect a regulator to say to a public limited company, 'You have to do something that we accept is financially unsustainable'. It is wholly unreasonable for Ofcom to make those sorts of demands.

[147] **Mr Owain:** ITV is still in possession of some public assets. For example, until the digital switchover, it will still be in possession of the position on the analogue spectrum. It also gets its position on the electronic programme guide. There are many factors there that should come into play. I appreciate the situation that ITV finds itself in, as a public limited company, but there is still a discussion to be had between Ofcom and ITV about the supply of PSB in Wales—and, extrapolating from that, also regionally throughout the UK, but our concern is obviously what happens in Wales. ITV is still benefiting from pretty significant publicly owned assets.

[148] **Alun Davies:** And those assets will come to an end in two years' time.

[149] **Mr Owain:** Absolutely. There will then be an opportunity to look at what other models we can use to ensure the long-term continuation of plurality in the supply of PSB.

[150] **Mr Rhys:** A paper also needs to be prepared on the popularity of these regional programmes, because I think that one would be surprised at their popularity, and there may be a stronger commercial argument for these programmes than has been referred to previously. I know for a fact that ITV Wales regional, opt-out programmes outperform the networks in the same slots, and yet they are not given as much credence or value as ITV prepares future policies. There are times in Wales when you have regional opt-outs on BBC Wales and ITV at the same time, which is nonsense if you put the needs of the viewer first, but both those opt-out programmes perform very well in the schedule. So, there is a huge demand for this sort of programming, and I sometimes think that ITV, centrally, has not looked at its commercial value in full.

[151] **Alun Davies:** I am sure that we will put that to Michael Grade at the appropriate time.

[152] **Nerys Evans:** Bu ichi sôn am y **Nerys Evans:** You mentioned that you ffaith eich bod yn cynrychioli mwy na 30 o represent more than 30 companies. Has that gwmmioedd. A yw'r nifer honno wedi number reduced over the years? You also gostwng dros y blynyddoedd? Bu ichi hefyd referred to S4C's policies on trying to get

sôn am bolisiâu S4C o ran ceisio cael cwmnïau i ddod at ei gilydd. A yw hynny'n fuddiol i ddatblygiad y sector, ac a yw'n ei wneud yn fwy cystadleuol?

[153] **Mr Owain:** Mae'r rheiny yn gwestiynau pellgyrhaeddol am y sector annibynnol. Teg yw dweud bod llai o gwmnïau erbyn hyn. Ar ddechrau'r 1990au, yr oedd TAC yn cynrychioli mwy na 80 o gwmnïau. Yn sicr, mae proses o gyfuno wedi digwydd o fewn y sector annibynnol, ac fe ehangodd John McVay ar hynny'n gynharach.

[154] O gofio sut y mae'r sector annibynnol yn gweithio, mae'n bwysig nodi ei fod yn anodd cynnig unrhyw bolisi neu unrhyw ymyrraeth dda yn y sector hwn. Bu'n bryder i TAC dros y flwyddyn ddiwethaf neu ddwy, neu'n hirach, efallai, fod polisiâu comisiynu S4C wedi arwain cwmnïau i uno. Ar hyn o bryd, yr ydym yn trafod dogfen fasnach deg S4C a fydd, gobeithiwn, yn goleuo'r berthynas rhwng y sector annibynnol a darlledwyr y dyfodol. Un peth y byddwn yn ei ystyried o ran hynny yw rôl S4C yn y farchnad honno. Efallai ei bod yn rôl rhy weithredol; ni wyddom. Mae'r cwestiynau hyn yn aml yn fater o farn.

[155] Pwysleisiaf fod lle hefyd i'r Cynulliad ofyn am y rôl y mae ei bolisiâu wedi ei chwarae o ran y neges sydd wedi'i chyfleu i'r sector. A yw agwedd y Cynulliad wedi bod yn iawn o ran sicrhau cystadleurwydd, a sicrhau bod sefyllfa y sector annibynnol yn cryfhau yn yr hirdymor?

3.10 p.m.

[156] **Alun Davies:** Yr ydym wedi clywed a thrafod y ffaith bod dros £110 miliwn yn cael ei wario ar gomisiynu rhaglenni Cymraeg a bod llawer llai—a bydd llai—yn cael ei wario ar raglenni Saesneg o Gymru yng Nghymru. A ydych chi'n meddwl bod hynny'n deg?

[157] **Mr Owain:** Mae'n anochel, yn arbennig os ydych yn edrych ar sefyllfa ITV, y bydd llai o arian yn cael ei wario ar raglenni'r sector annibynnol yn y dyfodol. Fel Cymry, os ydym yn gwerthfawrogi bod

companies to come together. Is that beneficial to the development of the sector, and does it make it more competitive?

Mr Owain: Those are very far-reaching questions about the voluntary sector. It is fair to say there are fewer companies these days. At the beginning of the 1990s, TAC represented more than 80 companies. There has certainly been a process of consolidation within the independent sector, and John McVay expanded on that earlier.

Given how the independent sector works, it is important to bear in mind that it is difficult to come up with any policy or any good intervention in this sector. It has been a concern for TAC over the past year or two, or longer perhaps, that S4C's commissioning policies have led to companies merging. At present, we are discussing S4C's document on fair trade, which will, we hope, inform the relationship between the independent sector and future broadcasters. One thing that we will consider in that is S4C's role in that market. Perhaps it is too much of an operational role; we do not know. These questions are often a matter of opinion.

I stress that there is also scope for the Assembly to ask about the role that its policies have played as regards the message conveyed to the sector. Has the Assembly had the right attitude to ensuring competitiveness, and ensuring that the independent sector is stronger in the long term?

Alun Davies: We have heard and discussed the fact that over £110 million is being spent on the commissioning of Welsh-language programmes, whereas much less is—and there will be less—being spent on English-language programming from Wales in Wales. Do you think that that is fair?

Mr Owain: It is inevitable, particularly if you look at ITV's situation, that less money will be spent on programmes from the independent sector in the future. As Welsh people, if we appreciate that there is a non-

diwylliant Cymreig di-Gymraeg, ac mae achos cryf i awgrymu bod yn rhaid inni, dylid cynnal trafodaeth ynglŷn â beth yw'r ateb i adlewyrchu'r Gymru ddi-Gymraeg hefyd. Mae honno yn drafodaeth i'r hirdymor yn fwy. Pan ydych yn edrych ar faint sy'n cael ei wario ar raglenni Cymraeg o'i gymharu â rhaglenni di-Gymraeg, cofiwch fod S4C yn rhwym i ddiwallu'r anghenion ar gyfer pob math o raglen drwy gyfrwng y Gymraeg, pan mai'r unig ofyn ar ITV yn y gorffennol a'r BBC ar hyn o bryd yw adlewyrchu Cymru neu sicrhau bod rhaglenni Cymreig yn Saesneg yn cael eu darlledu. Mae gofyn i S4C ddiwallu anghenion ehangach o ran rhaglenni Cymraeg, er enghraifft, cymharol ychydig o raglenni adloniant Cymreig yn Saesneg sydd yn bodoli, oherwydd bod yr angen hwnnw yn cael ei ddiwallu gan y rhwydweithiau Prydeinig.

[158] **Alun Davies:** Yr wyf yn anghytuno ei fod yn drafodaeth tymor hir, achos bydd y newid i ddigidol yn digwydd o fewn dwy flynedd, a bydd lleihad yn faint o gynnwys o Gymru a fydd ar ein sgriniau ar ITV. Mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd, felly nid oes gennym yr amser i'w drafod am sawl blwyddyn, mae'n rhaid inni wneud penderfyniadau yn awr. Ar hyn o bryd, mae'r 80 y cant o Gymry nad ydynt yn siarad Cymraeg yn mynd i gael llai o wasanaeth cyhoeddus ar y teledu neu ar y radio yn ystod y blynyddoedd nesaf. A ydych yn dweud bod hynny'n anochel ac nad oes dim y gallwn wneud yn ei gylch?

[159] **Mr Rhys:** Mae ein papur yn glir ein bod yn gweld y torri ar y gofod hwn—mae'n rhaid i chi gofio hefyd bod y rhan fwyaf o'n haelodau yn darparu rhaglenni yn Saesneg yn ogystal â Chymraeg—yn enwedig, ar hyn o bryd, mewn rhaglenni rhanbarthol ITV—fel gwarth ar ITV ac arnom ni fel cenedl am ganiatáu iddo ddigwydd. I fynd yn ôl at eich pwynt cychwynnol am wariant, mae'n rhaid i chi gysylltu gwariant gyda gofod. Gyda chyn lleied o ofod, a'r gofod hwnnw ar gyfer rhaglenni yn yr iaith Saesneg yn crebachu, mae'n anochel bod y gwariant arnynt yn llai, tra bod gofod S4C wedi ymestyn.

[160] **Mr Owain:** Efallai nad ydym wedi bod yn glir. Ein hateb yn y tymor byr i'r tymor canolig yw cryfhau, trefnu a chadw'r

Welsh-speaking Welsh culture, and there is a strong case for our doing so, we should have a discussion about how to reflect non-Welsh-speaking Wales too. However, that is a longer-term discussion. When you look at how much is spent on Welsh-language programmes compared with non-Welsh-language programmes, remember that S4C has a remit to meet the requirement for all kinds of programmes in Welsh, whereas ITV, in the past, and BBC, at present, are only required to reflect Wales or ensure that Welsh programmes in English are broadcast. S4C has a broader remit in terms of its Welsh-language provision, for example, there are relatively few light entertainment Welsh programmes in English, because that need is met by the British networks.

Alun Davies: I disagree with the statement that it is a long-term discussion, because the digital switchover will happen in two years' time, and there will be a reduction in the amount of Welsh content that will be on our screens on ITV. This is happening now, so there is no time to discuss it over several years; decisions must be taken now. At present, 80 per cent of Welsh people, who do not speak Welsh, will receive less public service broadcasting on television or on the radio over the next few years. Are you saying that that is inevitable, and that there is nothing that we can do about it?

Mr Rhys: Our paper is clear that we see this reduction in space—you must also remember that most of our members provide programmes in English as well as in Welsh—particularly, at the moment, in regional programming on ITV—as shameful for ITV and for us as a nation for allowing it to happen. To return to your initial point about expenditure, you must link expenditure with the space available. With so little space, and with the space available for English-language programming shrinking, it is inevitable that expenditure on it will be less, while S4C's space has expanded.

Mr Owain: We may not have been entirely clear. Our solution for the short to medium term is to strengthen, manage and retain the

sefyllfa gydag ITV yn bresennol. Fodd bynnag, os ydym am gael ateb tymor hir i'r cwestiwn o gynnig rhaglenni Cymreig yn yr iaith Saesneg, mae hynny tu hwnt i sefyllfa ITV yn bresennol, ac yn gwestiwn ehangach a mwy cyffredinol ynglŷn â darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Felly, i fynd yn ôl at yr hyn a ddywedwyd yn gynharach, mae'n rhaid i ni benderfynu pa gynnwys yr ydym ei eisiau a pha gynnwys yr ydym ei angen, a dylunio'r atebion o'r pwynt hwnnw.

[161] **Alun Davies:** Pan ydych yn sôn am y lluosogrwydd a ddylai fodoli—soniasoch yn arbennig am y newyddion—nid yw'n glir yn eich adroddiad ysgrifenedig, ond yr wyf yn cymryd eich bod yn credu ei bod yn bwysig cael lluosogrwydd o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd, dim ond y BBC sy'n cynhyrchu newyddion drwy gyfrwng y Gymraeg.

[162] **Mr Rhys:** Credaf fod angen hynny yn y ddwy iaith.

[163] **Alun Davies:** Felly, hoffech weld mwy o luosogrwydd yn y Gymraeg hefyd.

[164] **Mr Rhys:** Hoffwn.

[165] **Alun Davies:** Diolch yn fawr am hynny. A yw'r cwmnïau sy'n aelodau o PACT yn cystadlu ar lefel Prydeinig am gomisiynau o'r darlledwyr mawr Prydeinig? Bu inni glywed gan PACT bod problem ddiwylliannol. Dywedwyd fod comisiynwyr yn Llundain ddim yn fodlon comisiynu rhaglenni o Gymru am resymau oedd yn fwy diwylliannol nag economaidd, efallai. Beth yw eich profiad chi?

[166] **Mr Rhys:** Bu ichi gyfeirio ynghynt at agwedd Channel 4, yn enwedig yn y dyddiau cynnar, lle cymerodd yr agwedd, 'Mae S4C yn bodoli, felly nid oes angen i ni gomisiynu cwmnïau yng Nghymru'. Credaf ein bod wedi dioddef oherwydd hynny o'r cychwyn. Ar y llaw arall, credaf fod y sector annibynnol yng Nghymru—sy'n sector ifanc—wedi newid dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf. Mae cwmnïau mwy uchelgeisiol, ac mae dyheadau i gael llais uwch ar lefel Prydeinig ac Ewropeaidd. Yn y dyddiau cynnar, ni fyddai'r sector wedi gwthio yn rhy blaenllaw i gael llais ar y

current situation with ITV. However, if we want a long-term solution to the question of providing Welsh programmes through the medium of English, that goes beyond the current situation with ITV. It is a broader and more general question about public service broadcasting. So, to return to what was said earlier, we must decide what content we want and what content we need, and design our solutions from that point.

Alun Davies: When you talk about the plurality that should exist—you mentioned news in particular—it is not clear in your written report, but I take it that you think that it is important to have plurality in Welsh-language provision. At the moment, only the BBC produces news through the medium of Welsh.

Mr Rhys: I believe that it is necessary in both languages.

Alun Davies: Therefore, you would also like to see plurality in Welsh.

Mr Rhys: Yes, I would.

Alun Davies: Thank you very much for that. Do the companies that are members of PACT compete on the British level for commissions from the large British broadcasters? We heard from PACT that there is a cultural problem. It said that commissioners in London are not prepared to commission programmes from Wales for reasons that are more cultural than economic, perhaps. What is your experience?

Mr Rhys: You referred earlier to the attitude of Channel 4, particularly in the early days, when it took the attitude, 'S4C exists, therefore there is no need for us to commission companies in Wales'. I believe that we suffered as a result of that from the beginning. On the other hand, I believe that the independent sector in Wales—which is a young sector—has changed over the last two or three years. There are more ambitious companies, and there are aspirations to have a louder voice at the British and European levels. In the early days, the sector would not have fought very hard to have its voice heard

rhwydweithiau. Mewn cyd-destun y rhwydweithiau, gwn fod y darlledwyr yn Lloegr a'r Alban wedi bod yn defnyddio eu horiau rhanbarthol fel modd, dros y blynyddoedd, i greu peilot o raglen oedd wedyn yn cael ei ddangos ar y rhwydwaith. Nid yw hynny erioed wedi digwydd yng Nghymru. Nid yw ITV Cymru na BBC Cymru erioed wedi defnyddio'r oriau yn y modd hwnnw. Felly, nid yw'r sector wedi cael cyfle i addysgu ei hunain am anghenion rhaglenni ar y rhwydwaith.

[167] Felly, mae dau beth yn digwydd yma. Mae'r sector wedi bod yn araf, ond, yn y blynyddoedd diwethaf, mae wedi dechrau tyfu i fyny ac aeddfedu. Serch hynny, mae'n dalcen caled oherwydd bod agwedd yn Llundain bod digon o arian yng Nghymru, felly nad oes angen y gefnogaeth ar gynhyrchwyr yma. Nid wyf am fynd yn ôl i'r sefyllfa lle yr oedd, er enghraifft, Karl Francis, bob dwy neu dair blynedd, yn cyhuddo Channel 4 o fod yn erbyn y Cymry yn llwyr, ond mae hi wedi bod yn dalcen caled a gwn fod agwedd yn bodoli sydd wedi brwydro yn erbyn lleisiau o Gymru.

[168] **Mr Owain:** Mae dwy agwedd i hyn. Yn gyntaf, mae'r agwedd ddiwylliannol, sef pwysigrwydd adlewyrchu Cymru a bywyd Cymry ar y rhwydweithiau Prydeinig. Mae hefyd agwedd o ran buddsoddiad cyhoeddus, yn arbennig pan drafodwn y BBC a Channel 4. Mae sawl gwahanol bolisi wedi cael eu trio gan y darlledwyr ac asiantaethau yng Nghymru a rhanbarthau Lloegr. Nid yw'n broblem i Gymru yn unig. Mae'n broblem yn yr Alban a rhanbarthau Lloegr. Efallai gall unrhyw bwyllgor sy'n dilyn y pwyllgor hwn weld hwn fel nod polisi tymor hir. Mae'r strategaeth diwydiannau creadigol wedi nodi'r diffyg hwn yng Nghymru o fynediad at y rhwydweithiau Prydeinig. Credaf ei fod yn fater o ddeialog tymor hir, efallai rhwng y Cynulliad—ar yr ochr economaidd a diwylliannol—Ofcom, a'r darlledwyr er mwyn gweld sut medrwn feithrin sector sy'n gallu cystadlu am gomisiynau rhwydwaith yn gyson.

[169] **Mr Rhys:** Mae rôl i'r BBC yn hynny hefyd. Bu i John gyfeirio ynghynt at y syniad o *warehousing*, neu ddanfôn syniadau neu raglenni o ranbarth arall a'u gwneud nhw

on the networks. In the context of the networks, we know that broadcasters in England and Scotland have been using their regional hours as a way, over the years, of creating a pilot episode of a programme that was then shown on the network. That has never happened in Wales. ITV Wales and BBC Wales have never used those hours in that way. Therefore, the sector has not had the opportunity to teach itself about the needs of network programmes.

Therefore, there are two things happening here. The sector has been slow, but, in recent years, it has begun to grow up and mature. Despite that, it has been an uphill struggle, because the attitude in London was that there was enough money in Wales, therefore the producers here do not need support. I do not want to return to a situation where, for example, Karl Francis, every two or three years, would accuse Channel 4 of being completely against Welsh people, but it has been an uphill struggle and I know that there has been an adversarial attitude towards voices from Wales.

Mr Owain: There are two aspects to this. First, there is the cultural aspect, namely the importance of reflecting Wales and the lives of Welsh people on the British networks. There is also the aspect relating to public investment, particularly when we discuss the BBC and Channel 4. A number of different policies have been attempted by the broadcasters and agencies in Wales and English regions. It is not just a Welsh problem. It is a problem in Scotland and in the regions of England. Perhaps any committee that follows this one could see it as a long-term policy objective. The creative industries strategy has noted the deficiency in Wales with regard to access to the British networks. I believe that this is a matter for long-term dialogue, perhaps between the Assembly—on the economic and cultural side—Ofcom, and the broadcasters in order to see how we can develop a sector that can compete regularly for network commissions.

Mr Rhys: There is also a role for the BBC in that. John referred earlier to the idea of *warehousing*, or sending ideas or programme from another region and making them in a

mewn rhanbarth er mwyn dod â'r ffigurau i fyny. Yn sicr, yr ydym wedi dioddef yng Nghymru oherwydd hynny.

certain region in order to increase the figures. We have certainly suffered as a result of that in Wales.

3.20 p.m.

[170] Yr oedd BBC Cymru, tan yn ddiweddar iawn, yn ganolfan rhagoriaeth o ran rhaglenni cerddorol, ond yr unig beth oedd yn digwydd oedd ei fod yn cymryd syniadau o Lundain ac yn gofyn i un neu ddau o gynhyrchwyr o Landaf i fod ynghlwm â'r prosiectau. Nid oedd hyd yn oed unrhyw fudd economaidd i Gymru achos yr oedd y rhaglenni'n cael eu gwneud mewn rhannau eraill o Brydain. Yr ydych wedi cyfeirio eisoes at *Doctor Who* ac yr wyf yn meddwl bod angen gofyn cwestiynau difrifol i'r BBC o ran faint o les diwylliannol mae'r gyfres honno wedi dod i Gymru. Os rhywbeth, y mae wedi blocio lleisiau o Gymru o ran cyfrannu at ddrama. Mae hefyd angen gofyn cwestiwn ynglŷn â faint o fudd economaidd a ddaeth yn ei sgil. Fel TAC, yr ydym yn aml yn gweld pobl dalentog o Gymru nad ydynt yn cael cyfleoedd i weithio ar y prosiectau hyn, tra bod y prif gyfranwyr yn dod dros y bont i wneud y rhaglenni yng Nghymru. Eto, mae BBC Cymru yn datgan ei fod yn llwyddiant ysgubol i'r BBC yng Nghymru.

Until very recently, BBC Wales was a centre of excellence for music programmes, but all that used to happen was that it took ideas from London and asked one or two producers from Llandaff to be involved with the projects. There was not even any economic benefit to Wales because the programmes were made in other parts of Britain. You have already referred to *Doctor Who* and I think that serious questions need to be asked of the BBC about how much cultural benefit that series has brought to Wales. If anything, it has prevented voices from Wales from contributing to drama. There is also a need to ask questions about how much economic benefit has been derived from it. As TAC, we often see talented people from Wales who are not given opportunities to work on these projects, while the main contributors come over the bridge to make the programmes in Wales. Again, BBC Wales declares that it is a huge success for the BBC in Wales.

[171] **Alun Davies:** Buaswn yn gwerthfawrogi nodyn ysgrifenedig ar hynny, os yw hynny'n digwydd. Mae'n amlwg bod y BBC yn gweld *Doctor Who* fel llwyddiant mawr. Y mae'n llwyddiant ar y sgrin, wrth gwrs, ond os mai canlyniad y llwyddiant hwnnw yw disodli pobl sydd am weithio yng Nghymru ac sydd wedi bod yn gweithio yma, ond sy'n awr yn methu gwneud hynny, buasai diddordeb mawr gennym mewn clywed am hynny. Buaswn yn gwerthfawrogi nodyn ysgrifenedig felly.

Alun Davies: I would appreciate a written note on that, if that is happening. The BBC obviously sees *Doctor Who* as a great success. It is a success on the screen, of course, but if the result of that success is the displacement of people who want to work in Wales and who have been working here, but who now cannot do so, we would be very interested in hearing about that. I would appreciate a written note therefore.

[172] **Mr Owain:** Os edrychwch yn ôl ar hanes y sector annibynnol dros y 10 neu'r 15 mlynedd diwethaf, gwelwch fod sawl darlledwr wedi ceisio ymateb i bethau fel cwtâu rhanbarthol ac yn y blaen mewn rhyw ffordd—yr wyf yn meddwl yn benodol yn awr am Channel 4 a'r BBC, ond y mae ITV wedi ceisio hefyd, gyda'i gronfa cynhyrchu rhanbarthol. Y gwir amdani yw, wedi mwy na 10 mlynedd o'r math hwn o brosiectau'n digwydd, ychydig iawn o ranbarthau o'r

Mr Owain: If you look back at the history of the independent sector over the last 10 or 15 years, you will see that several broadcasters have tried to respond to things such as regional quotas and so on in some way—I am thinking specifically about Channel 4 and the BBC, but ITV has also tried with its regional production fund. The truth of the matter is that after more than 10 years of these types of projects taking place, very few regions of the United Kingdom have had sustainable

Deyrnas Gyfunol sydd wedi cael llwyddiant cynaliadwy o ran mynediad at y rhwydwaith. Yn sicr, nid yw Cymru wedi llwyddo a chredaf mai Cymru sydd wedi llwyddo lleiaf o ran ennill mynediad at y rhwydweithiau. Yr argraff y mae rhywun yn ei gael yw bod ffordd rownd bob polisi. Mae'r hyn y cyfeiriodd Dafydd ato o ran Channel 4 a *warehousing* wedi bod yn broblematic iawn dros y blynyddoedd o ran caniatáu mynediad i gynhyrchwyr annibynnol o Gymru. Yn y pen draw, yr unig ffordd i sicrhau hyn yn yr hirdymor yw i gyrff fel y Cynulliad agor rhyw fath o ddeialog ac wedyn efallai edrych ar y sefyllfa bob blwyddyn. Efallai bod lle i wneud hynny. Credaf pe bai bod deialog go iawn yn cychwyn, byddai'n llawer anos i'r darlledwyr osgoi caniatáu mynediad teg ar gyfer gynhyrchwyr Cymreig. Yr wyf yn meddwl bod lle i nodi hynny.

[173] **Nerys Evans:** Ar y thema honno, a oes unrhyw fuddiannau i'r diwydiant o'r system bresennol o gwota cynhyrchu y tu allan i Lundain a beth yw cyfyngiadau'r system? A oes unrhyw ddull arall gennych mewn golwg yn lle'r system honno?

[174] **Mr Owain:** O ran y mentrau, buaswn i'n dweud, yn sicr o ran y sector yng Nghymru, ein bod wedi cael ein siomi dro ar ôl tro gan y ffordd y mae'r darlledwyr a'r rhwydwaith wedi ceisio creu rhyw fath o systemau, bolisiau neu wahanol fathau o fentrau i ganiatáu mynediad i gynhyrchwyr o Gymru at ddarlledu rhwydwaith. Bob tro y cyhoeddir un o'r mentrau hyn—maent yn cael eu cyhoeddi'n weddol aml—credaf fod cynhyrchwyr yng Nghymru braidd yn blasé erbyn hyn oherwydd er bod mentrau o'r fath yn arwain at lot o gyfarfodydd ac at gomisiynwyr yn dod i lawr am ddiwrnod ac yn y blaen, nid ydynt wedi arwain at unrhyw beth tymor hir, cynaliadwy i Gymru. Y ffordd ymlaen yw i'r Cynulliad weld fod problem i gynhyrchwyr yng Nghymru ac i agor dialog drwy Ofcom ac efallai drwy'r Llywodraeth yn Llundain a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfrangau a Chwaraeon. Dylai'r dialog hwnnw fod yn un tymor hir; dyna'r unig ateb i'r problem.

[175] **Alun Davies:** Cyn i mi gau'r sesiwn hon, a ydych yn gwybod faint o gronfeydd datblygu rhanbarthol y BBC ac ITV sydd

success in terms of access to the network. Certainly, Wales has not succeeded and I think that Wales has succeeded least in terms of gaining access to the networks. The impression that one gets is that there is a way around every policy. What Dafydd referred to in terms of warehousing and Channel 4 has been very problematic over the years in terms of allowing access to independent producers from Wales. Ultimately, the only way of ensuring this in the long term is for organisations like the Assembly to begin some sort of dialogue and then, maybe, look at the situation every year. There may be a need to do that. I think that if a proper dialogue were begun, it would be much more difficult for broadcasters to avoid allowing fair access for Welsh producers. I think that there is a need to note that.

Nerys Evans: On that theme, are there any benefits to the industry from the current system of a quota for productions outside London and what are the system's restrictions? Do you have any other method in mind to replace that system?

Mr Owain: In terms of the initiatives, I would say, certainly in terms of the sector in Wales, that we have been disappointed time and again by the way in which broadcasters and the network have tried to create some sort of systems, policies or different kinds of initiatives to allow producers from Wales to access network broadcasting. Every time one of these initiatives is announced—and they are announced quite often—I think that producers in Wales are rather blasé about them because although such initiatives have led to a lot of meetings and to commissioners coming to visit for the day and so on, they have not led to anything long term or sustainable for Wales. The way forward is for the Assembly to see that there is a problem for producers in Wales and to open a dialogue through Ofcom and perhaps through the Government in London and the Department of Culture, Media and Sport. That should be a long-term dialogue; that is the only answer to the problem.

Alun Davies: Before I close this session, do you know how much of the BBC's and ITV's regional development funds have gone to

wedi mynd i aelodau TAC neu i'r sector annibynnol yng Nghymru? TAC members or to the independent sector in Wales?

[176] **Mr Rhys:** Yr wyf bron yn sicr, o ran ITV, nad oes unrhyw arian wedi mynd i aelodau TAC nac i gwmnïau yng Nghymru. O ran y BBC, mae un neu ddau o gwmnïau wedi derbyn arian i ddatblygu yn y maes drama — **Mr Rhys:** In terms of ITV, I am almost certain that no money has gone to TAC members or to companies in Wales. In terms of the BBC, one or two companies have received money to develop drama—

[177] **Mr Owain:** Yn y maes drama ac yn y maes dogfen. **Mr Owain:** In drama and in the documentary field.

[178] **Mr Rhys:** Nid wyf yn siŵr. **Mr Rhys:** I am not sure.

[179] **Mr Owain:** Gwn am un cwmni sydd wedi cael arian datblygu gan ITV, ond yr oedd hwnnw yn y maes drama. Nid oedd y cwmni hwnnw'n aelod o TAC, ond mae'n llwyddiant i Gymru. Cymharol isel, neu isel iawn yw'r arian yr ydym wedi ei dderbyn. **Mr Owain:** I know that one company has received development funding from ITV, but that was in the field of drama. That company was not a member of TAC, but it is a success for Wales. The amount of money that we have received from that is comparatively low or very low.

[180] **Alun Davies:** Byddem yn gwerthfawrogi nodyn ysgrifenedig ar hynny, os yn bosibl. **Alun Davies:** We would appreciate a written note on that, if possible.

[181] Diolch am eich amser a'ch parodrwydd i roi tystiolaeth i ni. Gwerthfawrogwn hynny'n fawr iawn. Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw. Mae'r cyfarfod nesaf ar 28 Ebrill. Bydd Green Bay Media Cyf. a'r Sefydliad Materion Cymreig yn rhoi tystiolaeth yn y cyfarfod hwnnw. Thank you for your time and your willingness to give evidence. We greatly appreciate that. That is the end of our discussions today. The next meeting is on 28 April. Green Bay Media Ltd and the Institute of Welsh Affairs will be giving evidence at that meeting.

*Daeth y cyfarfod i ben am 3.27 p.m.
The meeting ended at 3.27 p.m.*